# Y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

## Adroddiad Blynyddol

2021 - 2022

Scrutiny
in Carmarthenshire

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

CYNNWYS

**Rhagair y Cadeirydd 2**

1. Cyflwyniad ........ 4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2021/22 ........ 5
   2.1 Rheoli Cyfarfodydd ........ 5
   2.2 Rôl yr Aelod Cabinet ........ 5
   2.3 Y Flaenraglen Waith ........ 6
   2.4 Y Fframwaith Porth ac adroddiadau wedi'u dosbarthu ar wahân ........ 7
   2.5 Monitro Perfformiad ........ 8
   2.6 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ........ 10
   2.7 Adroddiadau Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau ........ 11
   2.7.1 Ymateb Brys i Lifogydd – Trefniadau Digwyddiad Storm – Hydref 2021 ........ 11
   2.7.2 Strategaeth Wastraff y Dyfodol – Hydref 2021 ........ 11
   2.7.3 Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Tachwedd 2021, 12
   2.7.4 Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) – Datgarboneiddio Trafnidiaeth - Tachwedd 2021 ........ 12
   2.7.5 Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio Drafft - Rhagfyr 2021 ........ 13
   2.7.5 Adroddiad Cynnydd Interim y Strategaeth Toiledau Lleol - Rhagfyr 2021 ........ 13
   2.7.6 Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol - Chwefror 2022 ........ 13
   2.7.8 Ymestyn Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus (Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin) – Mawrth 2022 ........ 14
   2.8 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddaru ........ 14
   2.8.1 Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer Ymgynghoriad Drafft – Gorffennaf 2021 ........ 14
   2.8.2 Datganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - y wybodaeth ddiweddaraf - Tachwedd 2021 ........ 15
   2.8.3 Opsiynau hygyrchedd mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y dyfodol ........ 15
   2.9 Atgyfeiriadau ........ 16
   2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu ........ 16
3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu ........ 17
   3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen) ........ 17
   3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle ........ 18
4. Heriau ........ 18
5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol ........ 18
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ........ 19
7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor ........ 20

## Rhagair y Cadeirydd



Am y tro olaf yn ystod y cyfnod etholiad hwn, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2021 ac Ebrill 2022.

A ninnau wedi wynebu Pandemig a chyfyngiadau symud a chyfnodau atal byr, mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn. Gan obeithio y gall y byd a'n cymunedau ddychwelyd i normalrwydd (gan fod yn ofalus) yn y dyfodol agos iawn, rydym yn anfon ein cydymdeimlad diffuant at y rhai sydd wedi colli anwyliaid ac yn llongyfarch y busnesau hynny sydd wedi llwyddo i oresgyn.

Yn dilyn ymlaen o'r llynedd, parhaodd y Cyngor hwn i ganolbwyntio ar ddiogelu ei drigolion a sicrhau ar yr un pryd bod swyddogaethau allweddol yn cael eu cynnal.

Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae'n amlwg bod Aelodau'r Pwyllgor eleni wedi derbyn ac wedi craffu ar lawer o wybodaeth er budd y Cymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi rheoli ei flaenraglen waith yn llwyddiannus ac, wrth wneud hynny, mae wedi cynnal gwaith craffu o ansawdd da drwy gwestiynu a thrafod.

Eleni, mae Aelodau'r Pwyllgor wedi mabwysiadu agwedd fwy gweithredol drwy nid yn unig ddwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif ond hefyd ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru i ofyn am gymorth ar faterion pwysig gan gynnwys Newid yn yr Hinsawdd a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Cabinet sydd wedi cyflwyno adroddiadau ac i swyddogion am ddarparu gwybodaeth dechnegol a gweithredol fanwl i'r Pwyllgor gan alluogi'r Aelodau i ddeall y prosesau'n well.

Hoffwn ddiolch unwaith yn rhagor i'm Is-gadeirydd, y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, mae ei gefnogaeth a'i angerdd i ddarparu adroddiadau o ansawdd da wedi bod yn amhrisiadwy.

I gloi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl Aelodau'r Pwyllgor am eich presenoldeb, eich proffesiynoldeb a'ch gwaith craffu rhagorol dros ein cymunedau ac ar eu rhan.

**Y Cynghorydd John James**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 2021/2022**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod y cylch pwyllgorau llai o chwe mis ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2020/21. Ei nod yw tynnu sylw at waith y Pwyllgor a myfyrio ar y cyflawniadau gan nodi'r hyn a weithiodd yn dda a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd John James ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Pwyllgor gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r Pwyllgor yn helpu i ddarparu nifer o fesurau canlyniadau allweddol o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23:

- **Amcan Llesiant 8 -**
  Byw'n dda - helpu pobl i fyw bywydau iach

- **Amcan Llesiant 9** –
  Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel

- **Amcan Llesiant 12** –
  Amgylchedd Iach a Diogel – Gofalu am yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol

- **Amcan Llesiant 13** –

  Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Mae rhai o'r mesurau a'r camau o fewn Amcan Llesiant 12 yn gorgyffwrdd â'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, ond bydd y wybodaeth angenrheidiol hefyd yn cael ei darparu i'r Pwyllgor hwn.

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2021/22

### 2.1 Rheoli Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu chwe chyfarfod ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22.

Fe gynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â’r Flaenraglen Waith fel y cynlluniwyd ac eithrio cyfarfod cyntaf 2021 ym mis Mai a gafodd ei ganslo gyda chaniatâd y Cadeirydd oherwydd oedi cyn cyflwyno’r adroddiadau a'r cyfarfod olaf ym mis Ebrill oherwydd ei fod yn cwympo o fewn y cyfnod cyn etholiad.

Yn unol â’r darpariaethau ar gyfer adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhaliwyd pob cyfarfod yn rhithwir dros Zoom. Yn unol â'r ffordd newydd o weithio, parhaodd yr aelodau i gyd i gyflawni eu rôl graffu yn hyderus ac yn broffesiynol.

### 2.2 Rôl yr Aelod Cabinet

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2020, cytunodd y Cyngor ar nifer o newidiadau i’w Reolau Gweithdrefn Graffu a’i gylchoedd gwaith. Y prif newid oedd y byddai disgwyl i Aelodau'r Cabinet fod yn bresennol, cyflwyno'r adroddiadau a roddwyd ar y Flaenraglen Waith gan y Pwyllgor ac ateb cwestiynau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu a thrwy hynny ddwyn y Cabinet i gyfrif. Galwyd ar Swyddogion perthnasol er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol am faterion gweithredol.

**Sylwer: Ar 16 Awst 2021 cafodd y Bwrdd Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu hail-enwi yn y Cabinet ac Aelodau'r Cabinet yn y drefn honno. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r enw a oedd yn hysbys ar ddyddiad y cyfarfod.**

**<u>Yr Amgylchedd –</u>**

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith Adran yr Amgylchedd sy'n cynnwys gwaith yr is-adrannau Gwastraff ac Amgylcheddol, Priffyrdd a Chludiant, Gwasanaethau Eiddo a Pholisi a Pherfformiad.

Mae'r **Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd** yn gyfrifol am:

| | |
|---|---|
| Sbwriel | Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau |
| Glanhau Strydoedd | Glanhau Adeiladau |
| Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Cynlluniau Argyfwng |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | Llifogydd |
| Gwasanaethau adeiladau | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |

**<u>Diogelu'r Cyhoedd –</u>**

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd / Safonau Masnach, sy'n rhan o'r Is-adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r **Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd** yn gyfrifol am

| | |
|---|---|
| Safonau Masnach; | Gwastraff Di-drwydded |
| Iechyd yr Amgylchedd | Y Gwasanaethau Parcio; |
| Gorfodi Materion Amgylcheddol; | Bioamrywiaeth |
| Gorfodi Rheolau Cynllunio | |

**<u>Diogelwch Cymunedol / Troseddau ac Anrhefn –</u>**

Un o rolau allweddol Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yw ei waith fel y Pwyllgor sy'n Craffu ar Droseddau ac Anhrefn yn y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd Gylch Gorchwyl ychwanegol penodol lle mae'n arfer pwerau sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn (6.4 yn y Cyfansoddiad).

Mae'r **Aelod Cabinet dros Gymunedau a Materion Gwledig** yn gyfrifol am:

| | |
|---|---|
| Materion Gwledig ac Ymgysylltu Cymunedol | Diogelwch Cymunedol; Yr heddlu |
| Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Trechu Tlodi; |
| Cyswllt â'r Trydydd Sector | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. | Cydraddoldeb |

Yn ogystal, mynychodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau gyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau yn ymwneud â chyllid gan gynnwys adroddiadau monitro'r gyllideb ac roedd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yn bresennol i gyflwyno'r camau gweithredu perthnasol yn yr adroddiadau Monitro Perfformiad Corfforaethol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

## 2.3 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn datblygu ei Flaenraglen Waith ac mae materion sy'n rhan o'r cylch gorchwyl yn cwmpasu'r canlynol:-

- **Y Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol gan gynnwys:-**
  - Casglu Sbwriel,
  - Glanhau Strydoedd,
  - Cynnal a Chadw Tiroedd,
  - Glanhau Adeiladau (gan gynnwys Ysgolion, lle bo hynny'n berthnasol),
  - Toiledau Cyhoeddus

- **Trafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd gan gynnwys:-**
  - Priffyrdd, Goleuadau Stryd

- Pontydd,
- Rheoli Traffig,
- Y Gwasanaethau Parcio,
- Llwybrau beicio a Hawliau Tramwy;

- **Gorfodi Materion Amgylcheddol gan gynnwys:-**
  - Sbwriel, Baw Cŵn;
  - Cerbydau wedi eu gadael ac ati;
  - Gorfodi Rheolau Cynllunio;
  - Safonau Masnach;

- **Materion Diogelwch Cymunedol gan gynnwys:-**
  - Atgyfeiriadau Troseddau ac Anhrefn
    *(i gynnwys pŵer i wneud adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor Sir a/neu Gabinet y Cyngor);*

- **Rheoli Plâu yn yr Amgylchedd ac o ran Iechyd y Cyhoedd:-**
  - Cynhwysiant cymdeithasol;
  - Y Gymuned;
  - Bioamrywiaeth;
  - Di-garbon.

Ym mis Ebrill 2021, datblygodd y Pwyllgor, yn ei sesiwn datblygu Blaenraglen Waith flynyddol, ei Flaenraglen Waith ei hun drwy nodi a blaenoriaethu eitemau agenda i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor nesaf.

Yn ogystal â'r eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, ynghyd â chynlluniau gweithredu ac adroddiadau monitro, nododd y Pwyllgor adroddiadau cyn penderfynu o Flaenraglen Waith y Cabinet 2021/22.

Er bod gan y Pwyllgor yr opsiwn i gyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau o Awdurdodau Cyfrifol neu bersonau neu gyrff cydweithredol nad ydynt yn pleidleisio mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anrhefn, [yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009] ni wnaeth hynny yn ystod blwyddyn ddinesig 2021/22.

## 2.4 Y Fframwaith Porth ac adroddiadau wedi'u dosbarthu ar wahân

Yn ei sesiwn datblygu Blaenraglen Waith ar 9 Ebrill 2021, defnyddiodd y Pwyllgor y Fframwaith Porth i reoli nifer yr adroddiadau a gyflwynir ym mhob cyfarfod. O ystyried nifer yr adroddiadau sydd i'w hystyried, mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal proses graffu o ansawdd da.

Ar ôl nodi'r adroddiadau ar gyfer y Flaenraglen Waith, lluniodd y Pwyllgor ei raglen ymhellach drwy fynd â phob pwnc/adroddiad drwy'r Fframwaith Porth.

Yn unol â'r Fframwaith cytunodd yr Aelodau i'r adroddiadau canlynol gael eu dosbarthu i'r aelodau drwy e-bost. Bu'r aelodau'n craffu ar yr adroddiadau fel y byddent mewn cyfarfod ffurfiol ac yn anfon unrhyw ymholiadau a/neu bryderon at y Swyddog Cymorth Craffu i drefnu ymateb. Roedd unrhyw ymholiadau a godwyd ynghyd ag ymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Eitemau ar gyfer y Dyfodol.

- Adroddiadau Monitro cyllideb
- Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ei Flaenraglen Waith yn rheolaidd, ac, fel dogfen gweithio hyblyg o bryd i'w gilydd symudwyd adroddiadau i reoli'r broses Graffu yn unol â hynny.

## 2.5 Monitro Perfformiad

### Cynlluniau Busnes (o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn) -

Cyflwynwyd y Cynlluniau Busnes Adrannol a ganlyn gan yr Aelodau'r Bwrdd Gweithredol priodol i Aelodau'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2021:-

- Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2021/22
- Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22
- Cynllun Busnes Adrannol yr Adran Cymunedau 2021/22

Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau nifer o sylwadau a phryderon ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau cysylltiedig a gyflwynwyd yn y cynlluniau adrannol ac ar ôl y drafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y camau gweithredu a'r mesurau a bod Cynlluniau Busnes Adrannol 2021/22 yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried [Mai 2021].

Fodd bynnag, er mwyn galluogi Swyddogion i gael amser ychwanegol angenrheidiol i weithredu ar y sylwadau a godwyd gan Aelodau Craffu, yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd, cytunwyd i gyflwyno'r adroddiadau i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf ac wedi hynny gan nad oedd llawer ar yr agenda, gohiriwyd y cyfarfod ym mis Mai.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynwyd y Cynlluniau Busnes Adrannol diwygiedig i'r Pwyllgor a oedd wedi'u diweddaru i gynnwys gwybodaeth ychwanegol i ddarparu crynodeb o'r camau gweithredu allweddol a'r mesurau oedd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn ogystal â cholofn ychwanegol i gyfeirio'r mesurau/canlyniadau i Amcan Llesiant perthnasol y Cyngor.

Er bod yr Aelodau wedi sylwi bod y cynlluniau busnes adrannol ar draws y gwahanol sectorau yn amrywio o ran eu hymagwedd ac o ddeall bod y wybodaeth fanwl wedi'i darparu yn y Cynlluniau Is-adrannol, diolchodd yr Aelodau i swyddogion am weithredu ar geisiadau'r Pwyllgor i ddarparu cynlluniau ac ynddynt fwy o wybodaeth.

Parhaodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i weithio gyda Swyddogion i wella'r Cynlluniau Busnes Adrannol ymhellach yn barod ar gyfer 2022/23.

Ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Pwyllgor Gynlluniau Busnes Adran yr Amgylchedd ac Adran y Prif Weithredwr 2022/23 i'w hystyried.

Roedd Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd wedi mabwysiadu arddull newydd a gafodd ei gymeradwyo gan Aelodau'r Pwyllgor. Roedd y fersiwn ar ei newydd wedd, a oedd yn cynnwys mwy o wybodaeth, yn fwy darllenadwy ac yn haws ei ddeall, gan ddangos cyfeiriad y gwaith a sut olwg fyddai ar lwyddiant. Mynegwyd canmoliaeth am ddatblygu'r cynllun busnes ar ei newydd wedd. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r swyddogion fu'n rhan o ddatblygu'r cynllun. Awgrymodd yr aelodau y dylai'r fersiwn hwn fod yn gyson ar draws cynlluniau busnes adrannol eraill.

Ym mis Mawrth, cafwyd adroddiad heb ei gyflwyno mewn perthynas â Chynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2022/23 gan ohirio'r cynllun tan fis Gorffennaf 2022 er mwyn galluogi'r Is-adran newydd sef Cynaliadwyedd a Lle i gael ei sefydlu. Byddai hwn yn cael ei roi ar 2022/23

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21 – Ym mis Gorffennaf 2021 rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys 15 Amcan Llesiant y Cyngor ac yn asesu'r cynnydd a'r addasiadau a wnaed yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, canolbwyntiodd Aelodau Craffu ar yr adrannau a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Cododd yr aelodau gwestiynau/pryderon ar faterion perthnasol gan gynnwys

- Teithio Llesol a'r cyllid ar gyfer Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned.
- Y targedau arfaethedig ar gyfer y defnydd o ynni tuag at Sero-net
- Goblygiad defnyddio llai o drafnidiaeth gyhoeddus

Rhoddodd yr aelodau perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol, gyda chymorth Swyddogion, esboniadau manwl i Aelodau'r Pwyllgor Craffu.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Gan ei bod yn teimlo'n gryf ynghylch Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned, penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eu cefnogaeth i gyllid Llwybrau Diogel yn y Gymuned a cheisio cefnogaeth y Dirprwy Weinidog i ddarparu cyllid ychwanegol i helpu i ddatblygu llwybrau mwy diogel i ysgolion yn y dyfodol ar draws pob rhan o'r Sir. *Anfonwyd llythyr gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor at Mr Lee Waters AS, 3 Medi 2021.*<br>*Dosbarthwyd ymateb gan Mr Waters AS i'r Aelodau drwy e-bost, a cheir detholiad ohono isod:-*<br>**"Roeddem yn falch o allu cynyddu'r cyllid yn 2021/22 a dyrannu £6.5m i gynlluniau Llwybrau Diogel mewn yn y Gymuned eleni. Mae fy swyddogion wrthi'n mireinio'r cais a'r canllawiau i alluogi awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid ar gyfer 2022/23. Mae'n galonogol eich bod wedi cael ymateb cadarnhaol i'r alwad am gynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf."** |

Adroddiadau Perfformiad 2020/21 sy'n berthnasol i'r Craffu hwn - Un o brif rolau pwyllgor craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Ym mis Hydref 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad perfformiad a fanylai ynghylch cynnydd y canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r 13 amcan llesiant fel yr oeddent ar ddiwedd Chwarter 1. Cafodd adroddiad Chwarter 2 ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2021.

Diweddariad ar Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu – Drwy gydol blwyddyn y Cyngor, caiff ceisiadau ac atgyfeiriadau'r Pwyllgor eu cofnodi ac yna cyflwynir y diweddariadau gweithredu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

## 2.6 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Dosbarthwyd Adroddiadau Monitro Cyllideb i aelodau'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd drwy e-bost yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn 2021 i graffu y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol yn y misoedd a ganlyn:

- Mai 2021 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 28 Chwefror 2021
- Hydref 2021 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2021 a
- Tachwedd 2021 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2021.

Mae'r adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Roedd adroddiad monitro'r gyllideb mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2021 wedi'i gynnwys ar yr agenda i'w hystyried ym mis Chwefror 2022.

Ymgynghoriad - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25 - Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd y Pwyllgor, fel ymgynghorai statudol, Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25 i'w hystyried a rhoi sylwadau arni. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 i 2024/25.

Cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a phryderon ynghylch y cyllidebau arfaethedig gan gynnwys y

- Taliadau parcio ceir a'r cynnig i gyflwyno taliadau i feysydd parcio ychwanegol
- Nawdd yn y dyfodol o ran Arloesi Diogelwch Ffyrdd
- Diffyg Cynnal a Chadw a gofal Esthetig o'r isadeiledd yn Rhydaman
- Sefyllfa ariannol y Priffyrdd
- Hebryngwyr Croesfannau Ysgol
- Hysbysiadau Cosb Benodedig a thaliadau

| **Canlyniad:** |
| --- |
| Helpodd y sylwadau, y pryderon a'r argymhellion a godwyd gan y Pwyllgor i lunio strategaeth y gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23 – 2024/25 a gafodd ei hystyried yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2022. |

## 2.7 Adroddiadau Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau

### 2.7.1 Ymateb Brys i Lifogydd – Trefniadau Digwyddiad Storm – Hydref 2021

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad cyn i'r Cabinet ei ystyried a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl am sut yr oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn delio â digwyddiadau stormydd sy'n achosi llifogydd eang ac yn ymateb iddynt ac yn cynnwys y camau y gellid eu disgwyl gan y Cyngor.

- Gofynnwyd am eglurhad ar lefel cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran yr afon a achosodd y llifogydd sylweddol ym Mhensarn, Caerfyrddin.
- Pa waith oedd yn cael ei wneud i annog cymunedau ac yn enwedig cymunedau mewn perygl i gael cynllun mewn argyfwng a wardeiniaid argyfwng hyfforddedig?
- Cyn Cynhadledd COP 26 yn Glasgow a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd oedd yn mynd i'r Gynhadledd COP 26 fel cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, i ofyn iddynt geisio lliniaru newid yn yr hinsawdd.
- Cynlluniau i wella amddiffynfeydd llifogydd
- Ardaloedd arfordirol sy'n agored i lifogydd

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynwyd yn unfrydol fod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd yn gofyn iddynt geisio lliniaru newid yn yr hinsawdd yng nghynhadledd COP 26 ym mis Tachwedd 2021, i gefnogi uchelgais Cyngor Sir Caerfyrddin i leihau allyriadau carbon erbyn 2030.<br>***Anfonwyd llythyr gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor ar 26 Hydref 2021.*** |

### 2.7.2 Strategaeth Wastraff y Dyfodol – Hydref 2021

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn a oedd yn rhoi gwybodaeth am y strategaeth, camau gweithredu ac ystyriaethau arfaethedig i'r dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff, er mwyn cyrraedd targed ailgylchu o 70% erbyn 2024/25 a darparu sylfaen ar gyfer gwelliannau i sicrhau dim gwastraff erbyn 2050.

Cafwyd ymatebion i sylwadau a godwyd ar y prif bwyntiau canlynol eu darparu gan yr Aelod Cabinet gyda chymorth Swyddogion:-

- Cymharu Perfformiad – Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru
- Deunydd i godi ymwybyddiaeth a hybu ailgylchu
- Dyfodol safleoedd ailgylchu gwydr
- Pryderon am effaith amgylcheddol y bwriad i gasglu 3 bag du bob tair wythnos gan gynnwys cewynnau (Cynnyrch Hylendid Amsugnol).

| **Canlyniad:** |
|---|

| |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad. |

### 2.7.3 Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Tachwedd 2021,

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn gofyn i'r Aelodau ystyried a rhoi sylwadau ar rannau 4.1 i 4.4 o Lawlyfr Cynnal a Chadw HAMP cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu. Roedd y prif bryder a godwyd yn ymwneud â blaenoriaeth isel statws ffyrdd gwledig a bod ffyrdd gwledig yn cael eu harchwilio unwaith y flwyddyn yn unig. Gyda chymorth Swyddogion, ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r pryderon a rhoddodd esboniad trylwyr o'r system flaenoriaethol o asesu, archwilio ac atgyweirio.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynwyd yn unfrydol y dylid argymell i'r Cabinet y dylai Rhannau 4.1 i 4.4 y Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd gael eu cymeradwyo. |

### 2.7.4 Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) – Datgarboneiddio Trafnidiaeth - Tachwedd 2021

Cyn i'r Cabinet ei ystyried,, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi cynnig i fabwysiadu Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Ar ôl ystyried y 13 polisi allweddol, codwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Beiciau Trydan – os gellid eu hychwanegu at y 13 polisi allweddol
- Cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gosod cyfleusterau gwefru mewn ardaloedd gwledig
- Ceisiadau am gyllid a phwy sy'n talu costau'r cyfleusterau gwefru
- Addasrwydd cyfleusterau gwefru ar gyfer defnyddwyr anabl
- Ystyried argaeledd cyfleusterau ehangach mewn perthynas â'r cyfleuster gwefru
- Darparu pwyntiau gwefru drwy'r broses gynllunio
- Holwyd ynghylch nifer y cyfleusterau gwefru sydd ar gael i'w defnyddio erbyn 2030.

Gyda chymorth Swyddogion, rhoddodd yr Aelod Cabinet ymatebion cynhwysfawr

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell i'r Cabinet y dylid mabwysiadu'r Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan arfaethedig ar gyfer y Cyngor. |

### 2.7.5 Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio Drafft - Rhagfyr 2021

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Gorfodi Reolau Cynllunio drafft a oedd wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r ôl-groniad sylweddol o gwynion oedd heb eu datrys o fewn gwasanaeth Gorfodi Rheolau Cynllunio Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn trafodaeth, ymatebodd Swyddogion i faterion a godwyd mewn perthynas â lefelau staffio gorfodi a lleoli carafanau mewn coetir yn ddigymell.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynwyd yn unfrydol argymell i'r Cabinet fod y Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio Drafft yn cael ei gymeradwyo. |

### 2.7.5 Adroddiad Cynnydd Interim y Strategaeth Toiledau Lleol - Rhagfyr 2021

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth hon a oedd yn cynnwys 10 argymhelliad allweddol i wella darpariaeth toiledau Sir Gaerfyrddin yn yr hirdymor. Cododd aelodau yn eu swyddogaeth graffu y prif sylwadau a ganlyn:

- Newidiadau i daliadau i gael mynediad i doiledau yn y dyfodol
- Glanhau dan gontract

Dywedodd yr Aelodau y bu gwelliant amlwg o ran glendid y toiledau yng nghanol trefi a rhoddwyd canmoliaeth i'r Swyddogion ar adroddiad wedi'i ysgrifennu'n dda.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo Adroddiad Cynnydd Interim y Strategaeth Toiledau Lleol. |

### 2.7.6 Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol - Chwefror 2022

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a oedd yn rhoi gwybodaeth am gyfeiriad y Cyngor o ran rheoli sbwriel o fewn y Sir am y pedair blynedd nesaf ac yn ceisio dangos sut y byddid yn rheoli sbwriel.

- Lefelau staffio gorfodi
- Cyhoeddusrwydd gwybodaeth i annog a chynorthwyo Aelodau o'r cyhoedd a Chynghorau Tref/Cymuned i fynd ati i sefydlu grwpiau i lanhau pentrefi ac ardaloedd gwledig
- Y ddarpariaeth i gefnogi codi sbwriel yn ad hoc
- Materion yn ymwneud â baw cŵn

Gyda chymorth Swyddogion, rhoddodd yr Aelod Cabinet ymatebion cynhwysfawr ac eglurodd faterion a oedd yn peri pryder ac roedd cynlluniau i'w gwella yn y dyfodol.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol 2022-2026. |

### 2.7.8 Ymestyn Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus (Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin) – Mawrth 2022

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn mewn perthynas ag ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus presennol a oedd yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin am 3 blynedd arall. Roedd aelodau oedd yn teimlo'n gryf am faterion yn ymwneud â baw cŵn a pherchnogion cŵn anghyfrifol yn awyddus i ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus presennol am 3 blynedd arall.

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell i'r Cabinet y dylid ymestyn cyfnod Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 a bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Ymstyn i roi’r estyniad uchod ar waith ac yn cymeradwyo Gorchymyn 2016 gyda geiriad addas i adlewyrchu’r ffaith bod hyd gorchymyn 2016 wedi’i ymestyn. |

## 2.8 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddaru


### 2.8.1 Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer Ymgynghoriad Drafft – Gorffennaf 2021

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Ymgynghoriad y Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed mewn perthynas ag Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin, ac i ymgynghori ar y cynllun Cyflawni Ansawdd Aer drafft. Cododd y Pwyllgor nifer o faterion mewn perthynas â’r cynllun a gasglwyd ac a gynhwyswyd fel rhan o’r ymgynghoriad, roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:-

- Ansawdd aer o amgylch ardaloedd ysgolion – cyflwyno stryd ysgol
- Cynnydd o ran Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Llinell amser i ddatrys materion cyfreithiol mewn perthynas â llwybrau troed a rennir
- Parthau Allyriadau Isel – sut olwg oedd ar hyn
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch gosod arwyddion Ardal Rheoli Ansawdd Aer

### 2.8.2 Datganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - y wybodaeth ddiweddaraf - Tachwedd 2021

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd Adroddiad Datganiad Blynyddol 2021 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i wybodaeth am y rhwydwaith priffyrdd a manylu ar y tri maes allweddol canlynol ynghylch asedau priffyrdd:




- Priffyrdd (ffyrdd cerbydau, troedffyrdd a llwybrau beicio)
- Pontydd a Strwythurau
- Goleuadau Priffyrdd a Goleuadau Traffig

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gynhwyswyd am bob un o'r categorïau asedau uchod a oedd yn darparu'r amodau ac yn adrodd sut yr oedd yr amodau wedi newid ers yr adroddiad diwethaf ynghyd â newidiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar senarios ariannu.

Gyda chymorth Swyddogion, rhoddodd yr Aelod Cabinet ateb i nifer o gwestiynau a godwyd gan gynnwys y canlynol:

- Y gwariant isel o gymharu â Chynghorau eraill;
  Pryderon mewn perthynas â methiannau'r dull newydd o osod wyneb newydd ar rai ffyrdd a'r amser a gymerir i atgyweirio;
- Y data sy'n peri pryder a gasglwyd o arolygon draenio a'r effaith y gallai pibellau wedi'u blocio ei hachosi o ran amharu ar arwynebau ffyrdd;
- Cais mewn perthynas â chynnydd llwybr troed y Cardi Bach;
- Amhariadau ar ffyrdd yn deillio o waith atgyweirio gan gwmnïau cyfleustodau;
- Opsiynau buddsoddi a pharhad Cyllid Llywodraeth Cymru.

| **Canlyniad:** |
| --- |
| Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Adroddiad Datganiad Blynyddol 2021. |

### 2.8.3 Opsiynau hygyrchedd mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y dyfodol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a'r opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartreac yn darparu gwybodaeth ynghylch strategaeth hygyrchedd ar gyfer y gwasanaeth Canolfannau Ailgylchu yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Ar ôl ystyried, derbyniodd yr aelodau yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2.9 Atgyfeiriadau

Roedd y Pwyllgor wedi derbyn un atgyfeiriad ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22. Derbyniwyd yr atgyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio a oedd, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2021, wedi codi pryder ynghylch y diffyg palmentydd mewn ardaloedd gwledig i hwyluso lefelau uwch o gerdded a beicio a’r ôl-groniad o geisiadau.

Wrth dderbyn yr atgyfeiriad gan ei fod yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am adroddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Mawrth, 2022 a oedd yn nodi bod pwysau hirdymor wedi bod ar y Cyngor yn dilyn y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd am welliannau i'r priffyrdd megis uwchraddio cyffyrdd, mesurau arafu traffig, rhannau newydd o'r ffordd a llwybrau troed newydd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y ceisiadau a oedd yn dod i law yn llawer mwy na'r adnoddau a oedd ar gael drwy gyllideb gyfalaf flynyddol y Cyngor a ddyrannwyd ar gyfer Gwelliannau Diogelwch Ffyrdd ac Isadeiledd Priffyrdd.

Wrth dderbyn yr adroddiad, cydnabu Aelodau'r Pwyllgor yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael a phwysleisiwyd bod y ddarpariaeth bresennol o ran palmentydd mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn bryder mawr.

## 2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu

Mae gwrando ar y cyhoedd a rhoi llais iddynt yn allweddol i effeithiolrwydd craffu. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor roi cyfle i bobl Sir Gaerfyrddin (a thu hwnt) lunio'r Flaenraglen Waith. Darparodd yr adran Gyfathrebu gyfrwng iddynt gyfrannu trwy’r cyfryngau cymdeithasol trwy gydol blwyddyn y Cyngor gan roi sylw i bynciau amrywiol ar y Flaenraglen Waith Craffu.

Yn ogystal, gan gydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith craffu, ym mis Ebrill 2018, cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu i anfon gohebiaeth at Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i annog cynnydd o ran presenoldeb y cyhoedd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ac yn gofyn hefyd am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w hystyried yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, derbyniodd Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd geisiadau yn uniongyrchol gan ddau Gyngor Tref a Chymuned a gafodd eu hystyried fel rhan o sesiwn datblygu Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu ym mis Ebrill 2021. Aeth un o’r ceisiadau ymlaen i fod yn adolygiad Gorchwyl a Gorffen – gweler adran 3.1 am ragor o wybodaeth.

## 3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu

### 3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen)

Yn ei Sesiwn Datblygu'r Flaenraglen Waith a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r awgrym a gafwyd gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog sef bod y Pwyllgor yn ystyried y materion yn ymwneud â thipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Wrth gydnabod bod tipio anghyfreithlon yn broblem gynyddol yn Sir Gaerfyrddin, awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor fod tipio anghyfreithlon yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac awgrymodd y cymunedau y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried y mater hwn.

Wrth gadarnhau ei Flaenraglen Waith ar 2 Gorffennaf 2021, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y byddai ei drefniadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2021-22-23 fel a ganlyn:

1) * Adolygiad ar dipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin
2) Adolygiad ar Fridio Cŵn yn Sir Gaerfyrddin.

*Wrth wneud y penderfyniad uchod, disodlodd y Pwyllgor benderfyniad blaenorol y Pwyllgor a wnaed yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019 - “penderfynwyd yn unfrydol mai bridio cŵn yn Sir Gaerfyrddin fydd y pwnc ar gyfer adolygiad Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor yn 2021”.

Ar ôl cytuno i gyflawni Gorchwyl a Gorffen ar faterion tipio anghyfreithlon, derbyniodd y Pwyllgor y Ddogfen Gynllunio a Chwmpasu Drafft Gorchwyl a Gorffen ar Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin a chytunwyd ar Aelodaeth wleidyddol gytbwys o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Dechreuodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr adolygiad ym mis Medi 2021.

Fodd bynnag, yn ei gyfarfod cyntaf ar 8 Medi, 2021, derbyniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddiweddariad annisgwyl gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ar faterion mewnol a oedd wedi codi ers i'r Pwyllgor Craffu gytuno ar ei drefniadau Gorchwyl a Gorffen a chymeradwyo adolygiad o'r ddogfen gynllunio a chwmpasu ym mis Gorffennaf. O ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd, cytunodd y Grŵp yn unfrydol i ohirio'r adolygiad ynghylch Tipio Anghyfreithlon hyd at 2022 ar ôl y broses etholiadol.

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn amlinellu penderfyniad a rhesymau’r Grŵp

| **Canlyniad:** |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid derbyn penderfyniad y Grŵp i ohirio'r adolygiad o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin tan ar ôl etholiadau 2022. |

### 3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2021/22, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt:-

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020
- Adeiladau Hanesyddol ac Ymrwymiad Carbon Sero Net Sir Gaerfyrddin (Mai 2021)
- Yr Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau (Mehefin 2021)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Sesiwn Briffio Covid (Medi 2021)
- Seminar Gwasanaethau Cynllunio (Medi 2021)
- Gweithdy Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Hydref 2021)
- Sesiwn Briffio Ffosffadau'r Gwasanaeth Cynllunio (Tachwedd 2021)
- Digwyddiad Cysylltedd Digidol (Ionawr 2022)

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r Pandemig nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal ymweliadau safle yn ystod 2021/22.

## 4. Heriau

Fel yn achos y flwyddyn flaenorol oherwydd Covid, bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod heriol i'r Awdurdod a'r Pwyllgor ond maent wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod adrannau wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig Coronafeirws, ond perfformiodd pawb a gymerodd ran yn well na'r disgwyliadau i sicrhau bod y busnes yn mynd rhagddo yn ôl ei arfer.

Parhaodd aelodau'r Pwyllgor i groesawu'r ffordd rithwir o gyflawni eu rôl o Graffu ac maent wedi gweithredu'n broffesiynol yn yr amgylchedd gwe-ddarlledu i ddarparu ffordd o graffu agored a thryloyw. Er bod platfformau rhithwir wedi galluogi craffu i barhau, mae Aelodau'n gobeithio dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos.

Mewn perthynas â'r adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Dipio Anghyfreithlon, er bod yr Aelodau'n siomedig i orfod gohirio mater o bwys sylweddol i gymunedau, cydnabuwyd y byddai gohirio'r mater am y tro yn galluogi adolygiad llwyddiannus.

## 5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol

Nid oes amheuaeth bod y Pwyllgor wedi parhau i wneud cynnydd yn ystod blwyddyn heriol arall i bawb. Y gobaith yw, yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai 2022, y byddai’r garfan newydd o Aelodau’r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle byddai mewnbwn yr Aelodau’n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i hybu gwelliannau i wasanaethau.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o'r Flaenraglen Waith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r flwyddyn.
Fel rhan o ddatblygiad y flaenraglen waith, bydd y Fframwaith Porth yn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ddatblygu Blaenraglen Waith i'r Dyfodol i alluogi gwaith craffu penodol i gael ei gyflawni gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu dosbarthu'n decach, bod gan y cyfrifoldebau statudol ffocws a'u bod yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau strategol y cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i chwilio am bynciau i'w trafod gan Gynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol ac mae rhagor o wybodaeth am sut i gyflwyno pwnc i'w ystyried a gofyn cwestiynau mewn cyfarfod Craffu ar gael ar ein tudalen we Craffu:
https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/committees-meetings/scrutiny/#.Xp7Am6aQxMs

## 6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad y blaenraglenni gwaith Craffu ar y cyd â'r aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

## 7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor

Cynhaliwyd cyfanswm o 6 chyfarfod rhithwir rhwng mis Mai 2021 a mis Ebrill 2022. Cafodd y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer Mai 2020 ac Ebrill 2021 eu canslo. Caiff presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod y flwyddyn 2021/22 ei ddangos yn y tabl isod.

| **Aelod y Pwyllgor Craffu** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mansel Charles | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Arwel Davies | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Joseph Davies | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Karen Davies | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Penny Edwards | 2 | 33 |
| Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Tina Higgins | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd John James | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Eryl Morgan | 4 | 67 |
| Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Dorian Phillips | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Susan Phillips | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Alan Speake | 4 | 67 |
| Y Cynghorydd Dai Thomas | 6 | 100 |
| **Dirprwyon** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd Deryk Cundy | 1 | |
| Y Cynghorydd Tyssul Evans | 1 | |
| Y Cynghorydd Dot Jones | 1 | |
| Y Cynghorydd Kevin Madge | 1 | |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | 1 | |
| **Aelodau'r Cabinet** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Yr Amgylchedd) | 6 | |
| Y Cynghorydd P. Hughes (Diogelu'r Cyhoedd) | 6 | |
| Y Cynghorydd Ann Davies (Cymunedau a Materion Gwledig) | 2 | |
| Y Cynghorydd David Jenkins (Adnoddau) | 1 | |
| Jane Tremlett (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) | 2 | |